Coleg Gwent

## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig / Peirianneg Sifil Lefel 3




**Yn gryno**

Mae’r cwrs hwn yn cwmpasu ystod eang o ddisgyblaethau adeiladu gan sicrhau eich bod yn gymwys i ddod o hyd i’ch llwybr gyrfaol dewisol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Hoffech yrfa yn nisgyblaethau’r diwydiant adeiladu technegol

... Ydych yn dda am weithio fel rhan o dîm

... Oes gennych ddiddordeb yn y theori y tu ôl i adeiladu a dyluniad yr amgylchedd adeiledig

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Wrth ennill gwybodaeth fanwl am y diwydiant, byddwch yn paratoi eich hun ar gyfer gyrfa bosibl mewn amrywiaeth o rolau gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i; bensaernïaeth, cynllunio, peirianneg sifil, dylunio adeiladau, rheoli prosiectau, mesur meintiau, tirfesur adeiladau a thechnegwyr CAD.

Mae Prentisiaethau Dysgu Seiliedig ar Waith Coleg Gwent ar gael, a bydd hyn hefyd yn ffurfio dilyniant naturiol i'r prentisiaid hynny sydd eisoes wedi cyflawni NVQ seiliedig ar grefft.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dilyn llwybr proffesiynol mewn adeiladu, mae hwn yn gwrs dilyniant da i chi. Fe allai'r cwrs gynnwys cynllunio, cynaliadwyedd, dylunio a gweithio fel rhan o dîm ar safle adeiladu. Byddwch yn astudio unedau craidd ac unedau dewisol, gan gynnwys:

Dylunio
Adeiladu
Tirfesur
Amcangyfrif
Cynllunio a gweinyddu

Byddwch yn ymgymryd â phrosiectau rhyng-broffesiwn cyfredol a gweithgareddau ymarferol ar y safle, gan gynnwys tirfesur topograffaidd ac unionlin, cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur (CAD) a thechnegau lluniadu graffegol.

Cewch eich asesu drwy waith cwrs, a fydd yn cynnwys gweithgareddau ysgrifenedig ac ymarferol. Ar ôl ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Lefel 3 mewn Adeiladu
Cymwysterau priodol cefnogol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn ymuno â'r cwrs hwn, bydd angen o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch arnoch, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf neu gymhwyster Diploma Lefel 2 priodol gyda Gradd Deilyngdod a Gradd C mewn TGAU Mathemateg a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Gofynnir i chi hefyd:

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Fod â diddordeb mewn adeiladau a'r adeiladwaith trefol ehangach – nid yw adeiladu yn swydd sydd wedi'i chyfyngu i oriau gwaith y dydd ond yn hytrach yn ffordd o fyw
Gallu gweithio o dan bwysau fel unigolyn neu fel rhan o dîm er mwyn cwblhau'r aseiniadau i derfynau amser a manylebau tynn
Mae amgyffred gweddol o fathemateg yn ddymunol, gan fod llawer o'r modiwlau yn dibynnu ar egwyddorion mathemategol sylfaenol mewn cyd-destun adeiladu

Mae'n rhaid cael ymrwymiad llawn i bresenoldeb, ynghyd â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunangymhelliant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd cwblhau Diploma 90 Credyd Blwyddyn 1 yn eich galluogi i symud ymlaen i'r ail flwyddyn a chwblhau'r Diploma Estynedig llawn. O'r fan honno, mae'r llwybrau cynnydd yn cynnwys:

Gradd Sylfaen/HNC/HND neu gwrs gradd llawn
Prentisiaethau lefel uwch

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Adolygir yr holl gostau, sy'n agored i newidiadau.